# GWASANAETHAU CYHOEDDUS L2

**Tystysgrif Lefel 2 BTEC mewn Paratoi ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| **Pryd gaiff ei gyflwyno:** | Un prynhawn yr wythnos (dros ddwy flynedd) |
| **Teitl y cymhwyster:** | Tystysgrif Lefel 2 BTEC mewn Paratoi ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Corff Dyfarnu:** | Edexcel |

## Cyflwyniad i'r pwnc
Cafodd y cwrs hwn ei lunio i fod yn gyflwyniad i'r Gwasanaethau Cyhoeddus (y Gwasanaethau Argyfwng a'r Lluoedd Arfog, Tollau Tramor a Chartref, Gwasanaeth Carchardai EF, Awdurdodau Lleol). Mae'n rhoi'r wybodaeth greiddiol i'r myfyrwyr ac yn meithrin y sgiliau a fydd efallai'n eu galluogi i symud ymlaen i astudio'r Diploma Sylfaen Cenedlaethol Lefel 3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai. Yna, os ydynt yn llwyddiannus, gallant symud ymlaen i astudio'r Diploma Estynedig Lefel 3, Addysg Uwch ac i wneud cais i ymuno â'r gwasanaeth cyhoeddus o'u dewis nhw.

## Cynnwys y Cwrs
Mae'r cwrs yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol. Bydd yr unedau hyn yn archwilio'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol yn y Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai. Bydd yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddeall swyddogaeth gwaith tîm a chyfathrebu yn y gwasanaethau hyn hefyd.

## Asesu
Mae'n rhaid i'r myfyrwyr gwblhau 5 uned yn llwyddiannus i ennill y Dystysgrif, er enghraifft, Sgiliau Gweithio yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyflogaeth yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, Mynd i Ddigwyddiadau Argyfwng yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Ffitrwydd i Ddechrau yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon a Hamdden yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd myfyrwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hasesu drwy ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig, cyflwyniadau ar lafar, astudiaethau achos a phrosiectau sy'n gysylltiedig â gwaith.

## Cyfleoedd Gyrfa
Mae'n annhebygol y bydd y myfyrwyr yn symud ymlaen yn syth i fyd gwaith yn eu dewis faes ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs hwn. Ond, efallai bydd y myfyrwyr yn dymuno parhau i astudio drwy wneud cais i astudio Diploma Lefel 3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus neu astudio pynciau Safon Uwch fel y Gyfraith a Chymdeithaseg.

## Costau
Bydd disgwyl i fyfyrwyr brynu crys polo Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n costio oddeutu £12 a bydd disgwyl iddynt wisgo dillad addas ar gyfer gweithgareddau amrywiol (ffitrwydd).